

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PWYLLGOR TRWYDDEDU

YN GWEITHREDU YN UNOL Â'I SWYDDOGAETH O DAN DDEDDF TRWYDDEDU 2003

Rhif ffôn (01443) 424081 – J Nicholls

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu, (yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) yn cael ei gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach ddydd Mawrth, 11 Ebrill 2017 am 4.30pm

MATERION I'W TRAFOD

1. Datgan Buddiant

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

- (1) Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw;
- (2) Lle bo aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn

I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

3. Cadarnhau cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2017 yn rhai cywir. **1-4**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWASANAETH IECHYD A
DIOGELWCH Y CYHOEDD**

4. Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005 **5-41**

5. Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

**ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH IECHYD A
DIOGELWCH Y CYHOEDD SY'N CYNWYS GWYBODAETH
EITHRIEDIG**

6. Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth a threfniadau'r pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod mewn perthynas â'r canlynol:- **43-59**
- (i) Trwyddedau Personol **45-50**
(ii) Trwyddedau Safle **51-59**

7. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion a ddylai gael eu hystyried yn y cyfarfod ar frys oherwydd amgylchiadau arbennig yn nhyb y Cadeirydd.

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor:-

Cadeirydd ac Isgadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu (**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol A. S. Fox a B. Morgan yn eu tro.**)

Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol S.A. Bradwick, J. Bunnage, (Mrs) J. Cass, (Mrs) S. J. Jones, K. Montague, I. Pearce, S. Powderhill, G. Smith, L.G. Walker, E. Webster, C.J. Williams, T. Williams a D. Weeks

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol, Mrs J. Rosser (Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant, Lles, a Chymunedau) – er gwybodaeth.

04^{fed} Ebrill 2017